# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 15 Mai 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(132)v2

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

### 3. Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

**NDM5235 Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod hyrwyddo diodydd egni llawn caffein i blant a phobl ifanc yn achos o bryder sylweddol i iechyd y cyhoedd; a

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu i godi ymwybyddiaeth o'r pryderon iechyd sy'n ymwneud â diodydd egni llawn caffein.

**Cefnogir gan:**

Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)
Ann Jones (Dyffryn Clwyd)
Keith Davies (Llanelli)
Ken Skates (De Clwyd)
Aled Roberts (Gogledd Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Dileu pwynt 2.

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM5240 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi methiant Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau allweddol ar draws pob portffolio, yn enwedig amseroedd ymateb ambiwlansys ac amseroedd aros damweiniau ac achosion brys;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi enghreifftiau sy'n dangos sut y mae'r Uned Gyflawni wedi gwella cyflawni mewn portffolios penodol, gan sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei addo yn cael ei gyflawni; a

3. Yn annog y Prif Weinidog i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rheolaidd am gynnydd ym mhob maes polisi y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Uned Gyflawni.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi dangosyddion ystadegol a thargedau

penodedig ochr yn ochr â holl strategaethau'r llywodraeth.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Brif Weinidog Cymru i ddarparu manylion am strwythur a chost yr Uned Gyflawni a sut mae'n gweithredu i gyflawni'r rôl a gafodd ei diffinio gan y Prif Weinidog yn ei ddatganiad ysgrifenedig ar 13 Gorffennaf 2011.

Mae datganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog ar gael drwy ddilyn y linc ganlynol:

http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/13julydeliveryunit/?skip=1&lang=cy

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3 dileu'r cyfan ar ôl "Weinidog i" a rhoi yn ei le "gynnal dadl flynyddol ar gynnydd yr Uned Gyflawni yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**6. Dadl Plaid Cymru (60 munud)**

**NDM5239 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi pwysigrwydd buddsoddi yn y seilwaith o ran caffael, prentisiaethau, cyflogaeth a busnesau bach yn economi Cymru;

2. Yn cydnabod yr effaith negyddol ar economi Cymru yn sgîl toriadau i'r gyllideb gyfalaf yn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010; a

3. Yn galw am ddiogelu'r gyllideb gyfalaf i Gymru yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant sydd ar y gweill.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd, ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i feddwl mewn ffordd arloesol ac i ystyried pob model wrth ariannu prosiectau cyfalaf.

**Gwelliant 2 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 1, ar ôl 'seilwaith' cynnwys ', gan gynnwys cyllid ar gyfer band eang cyflym iawn a thrydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a chymoedd de Cymru,'

**Gwelliant 3 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1, 'ac yn croesawu buddsoddiad Llywodraeth y DU mewn seilweithiau band eang a thrafnidiaeth yng Nghymru'

**Gwelliant 4 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth y DU wedi creu Banc Buddsoddi Gwyrdd, sy'n cyfeirio biliynau o bunnoedd o fuddsoddiad preifat i faes ynni adnewyddadwy, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ei chamau i gefnogi busnesau i wneud cais am arian i sicrhau'r buddsoddiad gorau posibl yn y seilwaith ynni a swyddi gwyrdd yng Nghymru.

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi gwybodaeth glir i'r gymuned fusnes yng Nghymru am unrhyw bolisïau caffael newydd ar gyfer prosiectau seilwaith.

**Gwelliant 6 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwyntiau 2 a 3 a rhoi yn eu lle:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael mwy na £858 miliwn o gyllid cyfalaf

ychwanegol yn ystod cyfnod yr Adolygiad o Wariant presennol.

*[Os derbynnir gwelliant 6, bydd gwelliant 7 yn cael ei dad-ddethol]*

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at y lefelau gwario anghynaliadwy ac anghyfrifol o dan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU, a arweiniodd at ddiffyg blynyddol o £170.8 biliwn erbyn diwedd 2009-10, ac yn croesawu'r camau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth bresennol y DU sydd wedi torri traean oddi ar y diffyg, wedi creu miliwn a chwarter o swyddi newydd yn y sector preifat ac wedi cadw'r cyfraddau llog ar eu lefelau isaf erioed bron, a fydd yn helpu i sicrhau sefydlogrwydd ar gyfer buddsoddi yn economi Cymru.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5238 Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Niwroffisiotherapi yng Nghymru

Dadl ar ddarparu ffisiotherapi i bobl sy'n byw gyda chyflyrau niwrolegol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 21 Mai 2013